CYMDEITHAS BOB OWEN

# Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd

**Cymdeithas Bob Owen**
*Tâl aelodaeth*
*£3 y flwyddyn i'r Ysgrifennydd.*

**SWYDDOGION**

*Llywydd:*
*Dr. E D. Jones*
*Cadeirydd:*
*D. Tecwyn Lloyd*
*Ysgrifennydd:*
*Richard H. Lewis*
*40 Maes Ceiro,*
*Bow Street, Dyfed.*
*(Aberystwyth 828102)*
*Trysorydd a Threfnydd Busnes:*
*John Dilwyn Williams,*
*Glan Ffrwd, Pentre-uchaf,*
*Pwllheli, Gwynedd.*
*(Pwllheli 613480)*
*Golygydd:*
*John Roberts Williams,*
*18 Minffordd, Llanrug, Caernarfon.*
*(Caernarfon 3593)*
**Cyhoeddir Y Casglwr gyda chymorth ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru.**

## At y Golygydd

### PA ANEURIN?

MEWN amryw o lyfrau a brynais yn ail law o dro i dro, mae tocyn perchnogaeth (bookplate) tu mewn i'r clawr blaen. Arno, mae'r geiriau "Ecce Sator" a llun dyn yn hau grawn â llaw; o dan y llun mae'r enw "Aneurin Williams".

Pan oeddwn yn fyfyriwr ym Mangor yn y Tridegau, yr oedd llawer o lyfrau ail-law siop Galloway y pryd hwnnw yn dwyn y tocyn hwn ac mae'n amlwg fod gan Aneurin Williams lyfrgell helaeth ar un aeg.

Tybed a ŵyr rhywun o blith darllenwyr "Y Casglwr" pwy oedd y gŵr hwn, ymhle yr oedd yn byw, etc? Un o'i lyfrau ef sydd gennyf yn awr oedd "Celtic Researches" (1804) Edward Davies, curad Olveston ac un o'r rhai cyntaf i amau dilysrwydd Iolo Morganwg.

D. Tecwyn Lloyd.

### YWAIN LLEYN

YR WYF yn gwneud ychydig o ymchwil i hanes fy hen daid "Ywain Lleyn" 1786-1867. Fe'i ganwyd yn Bodnithoedd ger Botwnnog a threuliodd ei holl fywyd yno ar y fferm.

Deallaf fod detholiad o'i waith wedi ei gyhoeddi tua 1910. Byddwn yn falch o glywed gan rhywun ynglŷn â'r llyfr hwn, neu ynglŷn ag Owen Owen.

Elwyn Jones,
17, Vicarage Avenue,
Llandudno.

O dudalen 1

PRYNODD dŷ enfawr pedwar llawr yn ffordd Nant-y-Glyn, Bae Colwyn, lle dysgodd y bechgyn amrywiol grefftau fel teilwra, gwaith saer, gofaint, garddio, fferylla ac argraffu. Trwy ddysgu crefft iddynt roedd yn bosibl i'r bechgyn hyn fod yn genhadon hunan-gynhaliol. Ar ôl pedair blynedd o hyfforddiant roedd yn eu hanfon i'r Affric i ddysgu eu brodorion. Diddorol yw nodi fod Tŷ y Congo, Bae Colwyn erbyn heddiw yn eiddo i'r Gwasanaeth Iechyd ac yn cael ei ddefnyddio yn Feithrinfa i Famau a'u plant.

Trefnodd i Gwmni Llongau Elder Dempster, Lerpwl gludo'r bechgyn duon o Affrica i Lerpwl yn ôl ac ymlaen yn ogystal a'r St. Tudno i'w cludo o Lerpwl i Fae Colwyn yn rhad ac am ddim. Yn ychwanegol roedd ganddo flychau casglu ar y llongau i gasglu at sefydliad y Congo.

O blith noddwyr y sefydliad roedd enwau fel Brenin y Belgiaid, Syr Samuel Lewis, H.R.H. Prince Ademuyiwa, Gorllewin Affrica, Syr H. M. Stanley a'r Arglwydd Tredegar.

Dioddefodd wawd a sen a galwyd y Congo Colwyn yn goganus o wawdlyd yn Cuckoo House oherwydd y mynd a dod o'r Affric i Golwyn ac yn ôl. Ni bu ei lwybr yn un esmwyth; roedd y Parch B. Evans, Goruchwiliwr y Gymdeithas Genhadol, Llundain, yn ei wrthwynebu yn ffyrnig. Araf iawn i'w gefnogi oedd Gymanfa Bedyddwyr Arfon ar y dechrau, ond cafodd gefnogaeth Cymanfa Bedyddwyr Dinbych Fflint a Meirion a hefyd amryw o Gymanfaoedd y De. Ysgrifennodd lythyr at y Genhadaeth yn Llundain yn dweud ei fod am weithredu ei gynllun yn annibynnol arni.

Dyma ran o'r llythyr a ymddangosodd yn y Greal Ionawr 1887. "Mae fy nghysylltiad a'r Gymdeithas Genhadol yn awr wedi ei thorri er diwedd Mehefin diweddaf, yn fwyaf neillduol am nad oes gobaith i mi fyw i lafurio ar y Congo, ac hefyd am fy mod yn credu mai y cynllun sydd gennyf yw y goreu i oleuo y wlad honno Cymro i bregethu i Gymru, Sais i Saeson a Chongoad i'r Congoiaid."

Yn anffodus, trodd rhai eu cefnau arno a'r gelyn pennaf oedd rhagfarn. Ond chwedl William Hughes, am bob drws oedd yn gaead roedd dau yn agored. Ymwelodd H. M. Stanley â Chymru 15 Mehefin 1891 a bu'n darlithio i bedair mil o bobl ym mhafiliwn Caernarfon er budd y Sefydliad Affricanaidd, Bae Colwyn. Bu hyn yn gymorth mawr i gynyddu'r cyfraniadau yn ogystal a lladd y rhagfarn yn erbyn achos y Congo ym Mae Colwyn.

* * * *

YN 1893 aeth William Hughes i Affrica am yr ail waith am chwe mis er mwyn arolygu y gorsafoedd cenhadu a gweld sut yr oedd ei gynllun yn cael ei dderbyn yno. Ysywaeth, bythefnos cyn iddo gychwyn ar ei daith gwelodd Goruchwiliwr y Gymdeithas Genhadol yn Llundain ei gyfle i'w frathu a'i bardduo mewn llythyr ffiaidd yn Seren Cymru.

Gwyddai na fedrai William Hughes arbed ei hun gan ei fod yn brysur yn paratoi ar gyfer y daith i'r Affrig. Fodd bynnag, fe safodd y Dr. Spinther James yn esgidiau William Hughes a diogelodd ei safbwynt drwy ateb mewn cyfres o lythyrau yn Seren Cymru.

Bu llythyru chwyrn a thanbaid am gyfnod o dri mis yn gymaint felly, nes daeth ceisiadau i Spinther i argraffu y gyfres lythyrau yn llyfryn o dan y testun *Sefydliad Colwyn Bay wedi ei brofi trwy Dân*, ac fe'i gwerthwyd am chwe cheiniog a'r elw tuag at Congo Colwyn.

Roedd William Hughes a'i fryd ar gael 50 o fechgyn yng Ngholwyn, ond y mwyaf a gafwyd ar unrhyw adeg oedd 22. Er hynny, yn ystod dwy flynedd ar hugain y Sefydliad cafodd 87 o fechgyn eu hyfforddi, a mi greda'i fod y gwaith yn parhau heddiw fel lefain yn y blawd.

Er enghraifft, yn mis Gorffennaf 1984 drigain mlynedd wedi marwolaeth William Hughes, daeth Athrawes o Nigeria i'm gweld. Cyflwynodd ei hun fel Hazel King yn Fedyddwraig o Forgannwg Ganol. Dywedodd wrthyf ei bod yn gwneud Thesis ar y Cenhadwr enwog y Dr. Agbebi ac wedi darganfod fod yna gysylltiad rhwng Dr. Agbebi a William Hughes, y naill a'r llall i raddau yn coleddu'r un syniadau.

Cyfeiriais y chwaer at Lewis Valentine, oblegid gwyddwn am ei gysylltiad a Sefydliad y Congo pan oedd yn ddisgybl-Athro ym Mae Colwyn.

Gofynnodd William Hughes i Lewis Valentine a fuasai yn cymryd rhan mewn defosiwn yn un o gyfarfodydd y Congo. Cytunodd, ac wedi'r gwasanaeth aeth William Hughes allan gyda Lewis Valentine i'w hebrwng beth o'r ffordd tuag at ei gartref yn Llanddulas. Pan ar grib gallt Penmaen a chyn dymuno noswaith dda gofynnodd iddo ystyried yn ddwys mynd i'r Weinidogaeth.

Dyma eiriau Lewis Valentine yn adrodd yr hanes wrthyf: "Wyddoch chi John, fe ddigwyddodd rhywbeth i mi y noson honno a dim ond y weinidogaeth oedd yr ateb, a dyna'r cychwyn mewn gwirionedd."

* * * *

GYDA LLAW, bu y Dr Agbebi yng Nghymru yn 1885 am gyfnod o chwe mis ac meddai: "*I express great faith in the sincerity, devotion and liber-mindness of Hughes.*" Ysywaeth daeth croeswyntoedd ar lwybr William Hughes, collodd ei ferch Edith yn Awst 1893 yn 6 mis oed; collodd ei wraig yn Awst 1894 yn 33 oed a'i ferch hynaf ym Mai 1909 yn 22 oed.

Ar ben hyn i gyd daeth Horatio Bottomley, Golygydd John Bull, ag ensyniadau cas a thrahaus am sefydliad y Congo. Yn anffodus fe wnaeth William Hughes gangymeriad ei fywyd drwy ddod ag Achos o enllib mewn Llys yn Rhuthun. Wrth gwrs, roedd Bottomley wedi hen arfer a'r Senedd a'r llysoedd a gwyddai am driciau y wasg.

Collodd William Hughes yr achos ac aeth yn fethdalwr a chaewyd y Congo a dychwelodd y bechgyn i'w gwlad. Mae'n debyg mai ei swydd olaf ydoedd fel ysgrifennydd i Eisteddfod Genedlaethol Bae Colwyn yn 1910.

Bu am weddill ei fywyd yn wael yn nhloty Conwy a bu Lewis Valentine yn ymwelydd cyson. Rhyfedd o fyd, cychwynnodd ei gyfaill H. M. Stanley ei rawd yn nhloty Llanelwy a William Hughes druan yn gorffen ei ddyddiau yn nhloty Conwy. Daeth tranc hefyd ar lwybr ei wrthwynebydd, Horatio Bottomley.

Bu farw William Hughes yng Nghonwy ar Ionawr 28ain, 1924, a'i gladdu gyda'i deulu ym mynwent Colwyn gyda dau o fechgyn duon obobtu ei fedd. Beth bynnag yw barn y darllenydd amdano, gwnaeth ddiwrnod da o waith ac mae'n amlwg fod gan y genhadaeth feddwl uchel ohono neu ni fuasent wedi ceisio ei berswadio i ddychwelyd yn ôl i'r Congo a chynnig yr anrhydedd o Henadur iddo yn ogystal â rhoddi iddo unrhyw orsaf genhadol o'i ddewis.

## AR WERTH

*Y Cronicl, 1846-7. £7.00 + cludiant.*

*Gwynfor Evans: Aros Mae. Gwasg John Penry, 1971. £4.00 + cludiant.*

*Seren Gomer, 1840. £4.00 + cludiant.*

*Harri Williams; Crwydro Cernyw. Llyfrau'r Dryw, 1971. £2.50 + cludiant.*

*Yr Haul, 1849. £5.00 + cludiant.*

*Alun Llywelyn-Williams: Crwydro Brycheiniog. Llyfrau'r Dryw, 1964. £7.00 + cludiant.*

*Dennis a Liz Clark, 35 Station Road, Burry Port, Dyfed. SA16 0LP. (05546) 4747.*